

Adnabod Awdur

# Catherine Aran

Mewn bwthyn cerrig, wrth droed mynyddoedd Eryri, ym Methesda, yr ydw i'n byw efo Gary, fy ngŵr o Lundain sy'n gyrru tryciau, dau fab o'r enw Jac a Rhys, a hen gi â chlustiau rhy fawr o'r enw Boni.

Mae ein stryd yn un gul, a fedrwch chi ddim gyrru car heibio'r deuddeg o dai sydd yma, felly mae pawb yn adnabod pawb ac yn aml yn rhannu coffi, siwgr a sgwrs. Mae hyn yn golygu bod ein tŷ ni yn orlawn o bobl o bob oed yn aml, a digon o straeon i ddi-ddanu pawb drwy'r nos!!

Fy mhrif waith ydi adrodd straeon a chynnal gweithdai stori fel Cyfarwydd, felly byddaf yn darllen a chwilio am chwedlau i'w hadrodd drwy'r amser ac yn eu dysgu ar fy nghof gan weithio ar y ffordd orau i gyflwyno'r stori drwy ddefnyddio ystum corff, wyneb a llais. Yna byddaf yn teithio o amgylch ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau cymdeithasol a gwyliau celfyddydol yn adrodd straeon.

Yn ystod yr adegau tawel y bydda i'n ysgrifennu, pan fydd y plant yn eu gwelyau, Gary yn ei waith a'r sêr yn disgleirio. Yr adeg hynny y daw'r tylwyth teg, y cewri a'r gwrachod allan i chwarae!

2008 Lliniau: Arvid Parry Jones



CYNGOR LLYFRAU CYMRU  
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com  
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ON-LINE

Blwyddyn Darllen GENEDLAETHOL

2008

NATIONAL Year of Reading

Adnabod Awdur

# Catherine Aran

Dyddiad Geni: 17 Ebrill 1966

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**

Mi ges i 'ngeni ym Mangor, ond fy magu ar hyd ac ar led gogledd Cymru.

**Ble cawsoch chi eich addysg?** Yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych; Ysgol Llanfairpwll; Ysgol David Hughes, Porthaethwy; Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ac Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy; wedyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn yn hoffi'r hwyl ond yn casáu gwaith cartref a rhedeg.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Yn actores fyd-enwog o'r enw Audrey Hepburn!

**Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Llyfrau *Famous Five* gan Enid Blyton.

**Beth yw eich hoff ddiddordebau?**

Rwy'n hoffi treulio amser gyda'r teulu yn chwarae, yn cymryd arnom ein bod yn sêr y byd roc, neu'n creu pethau allan o gerdyn i addurno'r gegin, a siarad yn ddi-baid efo ffrindiau.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Teulu a ffrindiau.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Annhegwch a phobl hunanbwysig.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?** Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd.

**Pa un oedd eich llyfr cyntaf?**

*Idris y Cawr* gan Wasg Gwynedd.

**Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?**

Pan fydda i'n teimlo fel ysgrifennu, mae'n hawdd, ond os ydw i'n teimlo fel gwneud rhywbeth arall, mae'n anodd canolbwyntio.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Fel Cyfarwydd neu Ddynas Dweud Stori, rydw i'n dysgu nifer fawr o chwedlau ac mae'r patrwm yn dod oddi wrthyn nhw, fel arfer.

**Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Darllenwch bob dim dan haul a chadwch eich llygaid a'ch clustiau ar agor. Mae rhywbeth bychan iawn yn medru sbarduno stori!

**Pa un yw eich hoff lyfr?** *Wuthering Heights* gan Emily Brontë

**Pa un yw eich hoff gymeriad?** Yr Artful Dodger yn *Oliver Twist* gan Charles Dickens, mae'n debyg iawn i 'ngŵr!

**Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?** Fy mol a'r ffaith ei fod o mor hoff o siocled!

**Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?**

Dydwn i ddim yn gwylio llawer o deledu gan fod fy meibion, Jac a Rhys, a, ngŵr, Gary, wastad yn hawlio'r 'remote', ond dwi'n hoffi ffilmiau'n fawr.

**Beth yw eich hoff fwyd?** Chwadan ym mwyty Amser Da, Llanrwst.

**Beth yw eich hoff le yn y byd?** Adra o flaen y tân.

**Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?** Medal fechan oedd gan fy nhaid, John Morris, Nantycnidiw, oedd yn hongian wrth dsiaen ei oriawr boced.

**Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?** Fy nheulu, maen nhw'n boncyrs!

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?** 'Rargian, nac oes!

Llyfrau gan Catherine Aran:

*Idris y Cawr* £3.95

*Ganthrig Bwt y Wrach* £3.95

*Tywysoges y Tŵr* £4.95

(Gwasg Gwynedd)

